


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grantiau Bach – Dechrau Garddwriaeth

# Ffenest 3

# Canllaw Sut i Lenwi

# Cynnwys


Prif Negeseuon ....................................................................................4

Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein .......................................................................4

Grantiau Bach – Cais i'r Cynllun Dechrau Busnes Garddwriaeth – Canllawiau Sut i Lenwi .........................................................................4

Ar ôl Cyflwyno'r Cais yn Llwyddiannus ...........................................................4

Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein ..........................................................5

Hafan.....................................................................................................5

Tudalen Ceisiadau a Hawliadau.......................................................................8

Cais y Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth – Dechrau Arni ..................................................................................9

Parhau â'ch Cais / Dechrau Eto .......................................................................10

Cais i'r Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth – Cyflwyniad........................................................................................12

Hysbysiad Preifatrwydd ..................................................................................13

Pwy sy'n Gymwys...........................................................................................14

Ffit Strategol...................................................................................................15

Gwybodaeth a Phrofiad...................................................................................16

Addasrwydd y Buddsoddiad / Gweithgaredd ..................................................17

Adnoddau........................................................................................................19

Gwerthu a Marchnata cynnyrch.......................................................................20

Cynaliadwyedd tymor hir .................................................................................21

Cyllid a Chyflawni ...........................................................................................22

Risg a Rheoli Risg ..........................................................................................26

Targedau a Chanlyniadau ...............................................................................28

Themâu trawsbynciol ......................................................................................30

Rhestr o'r Wybodaeth Atodol sydd eu hangen.................................................31

Tudalen Gyflwyno - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ..32

Tudalen Gyflwyno - Datganiadau ac Ymrwymiadau.........................33

Tudalen Gyflwyno ........................................................................34
Beth fydd yn digwydd nesaf? ........................................................35
Cysylltiadau.................................................................................36
RPW Ar-lein ...............................................................................36
Ymholiadau – Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid..................................36
Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig...............................................36
Gwefan Llywodraeth Cymru..........................................................36

© Hawlfraint y Goron 2024 WG50980 ISBN digidol: 978-1-83625-855-1
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.

## Prif Negeseuon

## Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid i chi lenwi’r ffurflen gofrestru ar-lein.  I gael mwy o fanylion, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru .  Os oes angen newid manylion eich busnes, gallwch newid y rhan fwyaf ohonyn nhw ar-lein. Ond, efallai y bydd angen mwy o fanylion ar Lywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau mawr.  Cysylltwch â’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am ragor o wybodaeth.

## Grantiau Bach – Cais i’r Cynllun Dechrau Busnes Garddwriaeth – Canllawiau Sut i Lenwi

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi arweiniad cam wrth gam i chi ar sut i lenwi’ch cais i’r Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu’r canllaw yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Os cewch broblemau neu os nad ydych yn gallu mynd i’n gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Ar ôl Cyflwyno’r Cais yn Llwyddiannus


Bydd crynodeb o'ch cais i’r Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth yn cael ei ychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru". Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ati’n ofalus i wirio’r wybodaeth a gyflwynwyd.  Pe bai unrhyw ran o’r wybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges gan nodi eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y dewch o hyd i unrhyw wybodaeth anghywir.

Os cewch broblemau neu os nad ydych yn gallu mynd i’n gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein


## Hafan

Mewngofnodwch i’ch Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Rhif Defnyddiwr a’ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferth neu’n ei chael hi’n anodd mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl mewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein bydd 'Hafan' RPW Ar-lein yn ymddangos.




I agor cais y Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth, gallwch sgrolio i lawr ar eich hafan a'i ddewis o'r fan hon.




**Neu** gallwch glicio ar y tab 'Ffurflenni' yn hafan RPW Ar-lein, fel y dangosir isod:





Bydd hyn yn mynd â chi at y dudalen 'Ffurflenni'.

I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm **Cymraeg / English** ar frig y sgrin, ar y dde. Bydd hyn yn caniatáu i chi ddewis yr iaith y mae eich cais Grantiau Bach – Garddwriaeth Cychwyn Busnes yn cael ei arddangos ynddi.

# Tudalen Ceisiadau a Hawliadau

Ar ôl dewis y tab 'Ffurflenni', byddwch yn gweld y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.


Sgroliwch i lawr a dewis y ffurflen Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth.




Sgroliwch i lawr y dudalen i ddewis cais y Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth.

# Cais y Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth – Dechrau Arni

Ar ôl i chi ddarllen Llyfryn Rheolau Cyffredinol Cynllun y Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth, i ddechrau'ch cais, cliciwch ar y botwm **'Dechrau'**.



Taliadau Gwledig Cymru
RPW Ar-Lein Online
Rural Payments Wales

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 18 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

## Dechrau Cais dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Grantiau Bach - Cais Cychwyn Busnes Garddwriaeth.**

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyr

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Grantiau Bach - Cais Cychwyn Busnes Garddwriaeth** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
**Enw Masnachu**
**Cyfeiriad**
**Côd Post**
**Rhif Ffôn**
**Cyfeiriad e-bost**
**Nifer y Partneriaid**

Dewisiadau Ar-lein
**E-bost ynte neges destun (SMS)**
**Cyfeiriad e-bost**
**Rhif ffôn symudol**


Dechrau | Canslo

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd

Mae'r dudalen hon yn rhoi gwybodaeth i'ch helpu cyn dechrau llenwi'ch cais. Mae'n cynnwys dolen i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ac yn dangos y manylion sydd gennym amdanoch a'ch Dewisiadau Ar-lein. Os ydy'r manylion hyn yn anghywir, newidiwch nhw cyn dechrau llenwi'ch cais.

# Parhau â'ch Cais / Dechrau Eto

Ar ôl dechrau ar eich cais, gallwch ei adael a mynd yn ôl ato wedyn. Os ydych yn agor cais rydych eisoes wedi dechrau ei lenwi, yna gallwch Barhau (botwm glas ar waelod y sgrin) neu Ddechrau Eto trwy glicio ar y ddolen yn y sgrinlun:


Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 18 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Grantiau Bach - Cais Cychwyn Busnes Garddwriaeth.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Grantiau Bach - Cais Cychwyn Busnes Garddwriaeth.**

Cewch ddewis dileu'ch **Grantiau Bach - Cais Cychwyn Busnes Garddwriaeth** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Grantiau Bach - Cais Cychwyn Busnes Garddwriaeth** a llenwir y **Grantiau Bach - Cais Cychwyn Busnes Garddwriaeth** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Grantiau Bach - Cais Cychwyn Busnes Garddwriaeth** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
Enw Masnachu
Cyfeiriad
Côd Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Nifer y Partneriaid


Dewisiadau Ar-lein
E-bost ynte neges destun (SMS)
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol

Parhau i weithio ar **Grantiau Bach - Cais Cychwyn Busnes Garddwriaeth** a gafodd ei ddiweddaru a

Parhau | Yn ôl

Cofiwch, os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn dileu'r holl atebion rydych wedi'u rhoi ac unrhyw wybodaeth y byddwch wedi'i hychwanegu.

Os ydych yn siŵr eich bod am Ddechrau Eto, cliciwch ar ‘Ydw’ neu os nad ydych chi, cliciwch ‘Na’ fel sydd ar y sgrin:




# Cais i’r Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth – Cyflwyniad

Dyma dudalen y cyflwyniad sy’n rhoi gwybodaeth ichi am y Cynllun. I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth a ddarperir ar y dudalen hon, darllenwch y Llyfryn Canllaw Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth yn grantiau a thaliadau gwledig.

Mae dolen yng nghornel chwith ucha’r sgrin ar gyfer y Canllaw Sut i Lenwi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar y chwith, fe welwch y gwahanol adrannau. Mae croes goch yn dangos naill ai nad ydych wedi agor yr adran honno eto neu’ch bod wedi gwneud camgymeriad yn yr adran honno. Bydd croes werdd yn dangos eich bod wedi cwblhau’r adran ac nad ydym yn gallu gweld unrhyw gamgymeriadau. Mae botymau llywio ar dop a gwaelod y ffurflen. Hefyd, os hoffech weld copi Saesneg neu Gymraeg, mae botwm i wneud hynny yn y gornel chwith isaf , fel y sgrinlun isod.





Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.



# Hysbysiad Preifatrwydd

Ar dudalen yr Hysbysiad Preifatrwydd, rydym yn esbonio’ch hawliau a beth fyddwn yn ei wneud â’ch wybodaeth er mwyn prosesu’ch cais. Rhaid darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.





Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm Nesaf.



# Pwy sy’n Gymwys

Ar y dudalen hon, rhaid ichi ateb y cwestiwn a ydych yn berchennog, partner neu randdeiliaid â rhan weithredol mewn busnes sydd â budd mewn garddwriaeth fasnachol.

Os mai ‘ydw’ yw’ch ateb, ni fyddwch yn cael gwneud cais.




Ar ôl ateb y cwestiwn, cliciwch y botwm ‘**Nesaf’.**



# Ffit Strategol

Ar y dudalen hon, byddwch yn rhestru’ch cymwysterau perthnasol, er enghraifft cymhwyster mewn garddwriaeth, amaethyddiaeth neu bwnc cysylltiedig. Gallai pwnc cysylltiedig olygu gwyddor cnydau, marchnata, diogelwch bwyd, astudiaethau busnes ac ati.

Rhaid ichi gadarnhau hefyd a dangos tystiolaeth os ydych wedi dilyn cwrs datblygu proffesiynol parhaus (CPD) ym maes amaethyddiaeth, cynllunio busnes, rheoli neu ddatblygu busnes neu unrhyw fath arall o CPD a fyddai’n eich helpu i baratoi i sefydlu menter arddwriaethol lwyddiannus.

Pwysig: Rhaid ichi gyflwyno’r dogfennau canlynol, os ydynt yn gymwys, erbyn dyddiad cau’r cais hwn.

Copi o dystysgrifau cymwysterau.


Tystiolaeth o weithgareddau CPD rhwng 1 Ionawr 2020 a 30 Ebrill 2024.

Rhaid ichi gadarnhau y canlynol hefyd:

Pa fath o fenter arddwriaethol ydych chi am ei sefydlu – dewiswch un neu fwy o’r opsiynau o’r rhestr rydym wedi’i darparu.

Beth fydd strwythur y fenter? Dewiswch un o’r ddau opsiwn ar y rhestr.

Os ydych wedi paratoi cynllun busnes ar gyfer eich menter arddwriaethol newydd, dewiswch ‘Ydw’ neu ‘Na’.





Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





## Gwybodaeth a Phrofiad

Ar y dudalen hon byddwch yn disgrifio’r wybodaeth a'r profiad sydd gennych all eich helpu i ddechrau busnes garddwriaeth.  Nid oes rhaid i'r profiad fod o fewn y sector garddwriaeth ond byddai profiad ehangach fel rheoli staff, gwerthu ac ati yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol.

Bydd gofyn ichi hefyd roi crynodeb neu ddisgrifiad o’ch swydd bresennol ac esbonio sut y byddwch yn delio â’r fenter newydd gyda’ch swydd bresennol/eraill. Gallech sefydlu menter ran amser tra’ch bod yn cadw’ch swydd rall, ond bydd angen ichi esbonio sut y byddwch yn rheoli’r gweithgarwch a chadw’r ddysgl yn wastad rhwng y blaenoriaethau gwahanol.




Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





# Addasrwydd y Buddsoddiad / Gweithgaredd

Ar y dudalen Addasrwydd y Buddsoddiad / Gweithgaredd, byddwch yn cael esbonio pam eich bod am sefydlu'r busnes gan gynnwys sut y bydd yn fenter yn un hyfyw.

Bydd angen disgrifiad byr o'r fenter arddwriaethol rydych yn cynnig ei sefydlu gan gynnwys eich rheswm dros sefydlu menter arddwriaethol a manylion strwythur eich busnes. Bydd angen ichi esbonio pam eich bod am sefydlu'r busnes i'n hargyhoeddi'ch bod am wneud hynny gyda'r bwriad o sefydlu menter hyfyw.


Bydd angen ichi restru'r cnydau garddwriaethol rydych am eu tyfu. Gallwch wneud hynny trwy glicio ar y botwm '**Ychwanegu Cnwd**'.






Nodwch y cnwd rydych am ei dyfu a’i arwynebedd.

Os ydych am dyfu mwy nag un cnwd, cliciwch ar ‘**Safio ac Ychwanegu un Arall’**, neu fel arall cliciwch ar ‘**Arbed a Dychwelyd’.**



Gallwch newid y cnwd rydych wedi’i nodi trwy glicio ar y botwm **‘Newid’** a dileu’r cofnod trwy glicio ar y botwm **‘dileu’.**



Bydd gofyn ichi esbonio beth yw’ch bwriad o ran y cnydau, gan gynnwys maint y fenter yn y flwyddyn gyntaf. Disgwylir y bydd gennych gynllun clir.

Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





## Adnoddau

Ar y dudalen hon byddwch yn cadarnhau'r adnoddau sydd ar gael i chi sefydlu eich menter arddwriaethol.  Bydd hyn yn cynnwys mynediad i dir, unrhyw gyfleusterau a pheiriannau neu offer eraill.

Os nad oes gennych adnoddau ac nad ydych wedi esbonio sut y byddwch yn sefydlu’r fenter hebddyn nhw, byddwch yn cael sgôr isel.

Ar gyfer offer, os nad oes peiriannau neu offer ar gael ichi neu os oes raid ichi brynu’r holl beiriannau, bydd gofyn ichi esbonio sut ydych am wneud hynny.





Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.



# Gwerthu a Marchnata cynnyrch

Ar y dudalen hon byddwch yn cadarnhau manylion eich marchnad arfaethedig ac unrhyw ymchwil i'r farchnad yr ydych wedi'i chynnal.

Gallai gwerthu'ch cynnyrch yn eich ardal effeithio ar gynhyrchwyr eraill. Rhaid ichi ddangos eich bod wedi meddwl am hyn. Os ydych yn bwriadu gwerthu y tu allan i'ch ardal neu fod gennych gytundeb â chwsmer, bydd eich cais yn cael sgôr uwch.




Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




# Cynaliadwyedd tymor hir

Ar y dudalen Cynaliadwyedd tymor hir, byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni allu gwerthuso sut y bydd y prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd ac yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Mae’n hollbwysig defnyddio adnoddau’n effeithlon er mwyn sicrhau economi Lesiant yn ogystal ag i leihau allyriadau. Rydyn ni’n eich cynghori i ystyried sut bydd eich cynlluniau’n effeithio ar yr amgylchedd ac ar y newid yn yr hinsawdd.

Disgrifiwch sut y bydd y buddsoddiad yn helpu’r busnes i dyfu cnydau’n gynaliadwy ac yn gwella ansawdd y dŵr, pridd ac aer.

Esboniwch yn fanwl sut y bydd eich cynllun yn defnyddio maetholion yn effeithiol, yn lleihau allyriadau ac yn gwella ecosystem y fferm.




Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.



## Cyllid a Chyflawni

Yn yr adran hon bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth am agweddau ariannol ar eich prosiect a sut y byddwch yn ei gyflawni ac yn cydymffurfio â'r gofynion.

Bydd gofyn ichi roi manylion sut y caiff y Prosiect ei ariannu ar ben unrhyw grant a roddir, a sut y byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw ymrwymiadau. Bydd gofyn ichi hefyd ddangos cynllun o'r gwaith y mae'r Busnes/Sefydliad yn bwriadu ei roi ar waith. Bydd hynny'n cadarnhau'r amserlen ar gyfer cynnal holl weithgareddau a chymalau'ch prosiect.

Dylech ddarparu manylion y costau rydych yn bwriadu eu hysgwyddo wth sefydlu'ch menter er enghraifft buddsoddi cyfalaf a chostau trin y tir, hadau, cynaeafu, pecynnu, marchnata ac ati.

Bydd angen ichi baratoi cynllun y prosiect sy'n rhoi manylion y costau arfaethedig a'r amserlen ar gyfer y gwariant.


Bydd angen ichi roi manylion y gweithgareddau rydych am eu cynnal a dyddiad dechrau a dyddiad gorffen pob gweithgaredd.

Bydd angen ichi fod wedi ystyried hefyd o ble y daw'r eitemau gyda golwg ar sicrhau gwerth am arian, gan gynnwys gofyn am ddyfynbrisiau cystadleuol.

Bydd angen ichi ddangos tystiolaeth bod gennych ddigon o arian i dalu am yr holl wariant rydych yn ei gynnig.

Bydd angen ichi esbonio pam na all y prosiect fynd yn ei flaen heb y grant.


Dylech nodi y cewch sgôr uwch am roi disgrifiad manwl o'ch cynigion buddsoddi, am roi cynllun ac amserlenni manwl yn ogystal â disgrifiad manwl o sut yr ydych am ddefnyddio'r grant a gewch.




Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.


Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 2000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau.


I ychwanegu Gweithgareddau, cliciwch ar y botwm '**Ychwanegu Gweithgaredd'** i fwrw ymlaen.



Ar ôl clicio ar y botwm '**Ychwanegu Gweithgaredd'**, fe welwch y dudalen ganlynol.

Yma, bydd angen ichi nodi enw'r Gweithgaredd, disgrifiad ohono a'i ddyddiad dechrau a'i ddyddiad gorffen. I nodi'r dyddiadau, cliciwch ar fotwm y **calendr.** Wedi ichi fwydo'ch holl wybodaeth, cliciwch naill ai ar y botwm **Safio ac Ychwanegu Un Arall** (er mwyn ychwanegu eitem arall), neu'r botwm **Cadw a Dychwelyd** (os ydych wedi gorffen). Gallwch gofnodi cynifer o eitemau ag y dymunwch:





Gallwch newid unrhyw weithgaredd trwy glicio ar y botwm **‘Newid’**.

Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




# Risg a Rheoli Risg

Ar y dudalen Risg a Rheoli Risg, bydd angen ichi roi crynodeb yn y tabl o fan leiaf y pum risg fwyaf allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'r prosiect a sicrhau allbynnau ac amcanion y prosiect.  Bydd hynny'n cynnwys:


- Beth yw'r risg ac a yw'n debygol o ddigwydd dros y cyfnod y bydd y prosiect yn cael ei ddarparu?
- Beth fyddai'n digwydd i'r prosiect pe bai yn digwydd?
- Pa gamau y gallech eu cymryd i geisio ei atal rhag digwydd ond esboniwch hefyd beth y gallech ei wneud i leihau'r effaith ar y prosiect pe bai'n digwydd.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb ychwanegu o leiaf 5 risg.





Cliciwch ar '**Ychwanegu Risg'** i ddechrau nodi'ch risg gyntaf.

Wrth glicio arno, fe welwch y sgrin cofnodi fel y'i gwelwch yn y sgrinlun isod:



Ar ôl i chi gofnodi'r holl wybodaeth, cliciwch ar y botwm '**Safio ac Ychwanegu Un Arall'** er mwyn ychwanegu risg arall, neu'r botwm '**Cadw a Dychwelyd'** os ydych wedi gorffen.

Bydd gofyn ichi gofnodi o leiaf 5 risg wahanol.  Os na fyddwch yn nodi o leiaf 5, fe welwch neges camgymeriad ac ni fydd yr adran hon yn ymddangos fel adran sydd wedi'i chwblhau, fel y gwelwch ar y sgrinlun isod:



Gallwch newid cofnod trwy glicio ar y botwm **'Newid'** a dileu'r cofnod trwy glicio ar y botwm **'dileu'.**

Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




## Targedau a Chanlyniadau

Ar y dudalen Targedau a Chanlyniadau, byddwch yn nodi manylion y targedau a'r canlyniadau y byddwch am eu cyflawni yn ystod 12 mis cyntaf eich menter. Bydd angen ichi nodi'r canlynol:

- Arwynebedd o dan gnwd / y cnydau a dyfir
- Nifer y cwsmeriaid rydych yn eu targedu
- Gwerth eich gwerthiant


Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.

Dylech nodi ein bod yn disgwyl ichi ddewis targedau sy'n rhesymol ac yn ddigon uchelgeisiol ar gyfer busnes newydd. Bydd tyfu cnwd ar ddarn bychan o dir a thargedu un cwsmer yn rhoi sgôr isel ichi.





I ychwanegu gwerth eich targedau, cliciwch ar y botwm **'Newid'** ar gyfer pob Dangosydd yn ei dro.

Ar ôl clicio ar 'Newid, fe welwch y sgrin cofnodi fel y'i gwelwch yn y sgrinlun isod:



Ar ôl ichi ychwanegu gwerth y targed, cliciwch ar y botwm '**Arbed a Dychwelyd'.**

Bydd angen ichi lenwi'r tabl Targedau a Chanlyniadau ar gyfer y tri dangosydd. O beidio â gwneud, cewch neges fod yna gamgymeriad a bydd yr adran yn cael ei dangos fel un heb ei gorffen, fel yn y sgrinlun isod:



Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




## Themâu trawsbynciol

Ar y dudalen ‘Themâu Trawsbynciol’, bydd angen ichi esbonio sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol isod, gan esbonio sut y bydd eich menter yn cyfrannu at brif-ffrydio:

- Cyfle Cyfartal a Phrif ffrydio Rhywedd;
- Mynd i’r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol;
- Y Gymraeg.

Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 1000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau. Cadwch hyn mewn cof wrth lenwi eich ffurflen.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.





Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.



# Rhestr o’r Wybodaeth Atodol sydd eu hangen

Mae'r dudalen hon yn cadarnhau unrhyw ddogfennau ategol y bydd gofyn ichi eu cyflwyno gyda'ch cais.





Ar ôl ateb y cwestiwn, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.



# Tudalen Gyflwyno - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae hyn yn rhoi crynodeb o'r eitemau yr ydych wedi'u dewis ac yn eich hysbysu o unrhyw gamgymeriadau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.





Ar ôl i chi edrych trwy’r crynodeb a chywiro unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar y botwm ‘**Nesaf’**.



# Tudalen Gyflwyno - Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae'n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a ticiwch y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen ac yn cytuno â nhw.




Unwaith eich bod wedi darllen a chytuno â'r Datganiadau a'r Ymrwymiadau cliciwch ar y botwm '**Nesaf'**.




# Tudalen Gyflwyno

I gyflwyno'ch Cais i’r Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth, cliciwch ar y botwm ‘**Cyflwyno’**.




Ar ôl cyflwyno'r cais, byddwch yn cael cadarnhad y gallwch ei brintio a'i roi yn eich ffeiliau.




Ar ôl i’r cais gael ei gyflwyno, ni allwch newid yr eitemau rydych wedi’u dewis.

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

**Mae dau ganlyniad posibl i arfarniad cais:**

1. Nid yw eich prosiect yn gymwys ac nid yw wedi'i gymeradwyo am ddyfarniad grant. Fe'ch hysbysir am y rhesymau nad oedd eich cais yn llwyddiannus trwy eich cyfrif RPW Ar-lein. Gallwch wneud cais am yr un prosiect eto os oes cyfnodau ymgeisio eraill ar gael yn y dyfodol (gan ddiwygio'r cais os ydych yn dymuno) **ond dim ond os nad ydych wedi dechrau ar y menter arddwriaethol**.

2. Mae eich prosiect yn gymwys ac mae'n cael ei gymeradwyo am ddyfarniad. Bydd llythyr yn cael ei gyflwyno i chi trwy eich cyfrif RPW Ar-lein yn cynnig y grant ichi ac yn nodi telerau ac amodau'r grant. Gofynnir i chi ei dderbyn o fewn 30 niwrnod i ddangos eich bod yn cytuno â'r amodau a'r telerau hynny. Bydd llythyr dyfarnu'r grant yn rhoi'r awdurdod i chi ddechrau ar y gwaith. **Bydd angen i chi dderbyn neu wrthod y dyfarniad grant o fewn 30 diwrnod**. Os na fyddwch wedi derbyn y dyfarniad grant o fewn y 30 niwrnod, caiff y dyfarniad grant ei dynnu'n ôl.

## Cysylltiadau

## RPW Ar-lein

Gallwch gael mynediad at wasanaeth RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth www.gateway.gov.uk, neu ar ôl i chi gofrestru ar gyfer gwasanaeth RPW Ar-lein gallwch gael mynediad ato trwy https://llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein.  Os nad ydych wedi cofrestru ar RPW Ar-lein, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru ar wefan Llywodraeth Cymru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

## Ymholiadau – Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Llywodraeth Cymru
Gallwch gyflwyno ymholiadau trwy RPW Ar-lein ar unrhyw adeg.

## Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig nad yw ein cyfleusterau yn darparu ar eu cyfer yn eich tyb chi, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, edrychwch ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd cyfle ichi gofrestru arni am y daflen e-newyddion, Gwlad.